Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
IONAWR 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Ionawr, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd **LLANWNDA**
PRESENNOL	Tom Ellis (Cad), Emrys Jones, Jane Eryl Jones, Elin Evans, Meurig Williams, Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen; Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Jason Hunt, Nerys Evans, Huw Williams

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Ni fu cyfarfod ym mis Rhagfyr gan na chafwyd cworum. Aelodau'n bresennol yn y cyfarfod: Tom Ellis, Nerys Evans a Jason Hunt. Cadarnhawyd fod cofnodion mis Tachwedd yn gywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) Lein Bryngwyn – copi o lythyr anfonwyd at Dewi Pritchard Jones gan Gyngor Gwynedd. Angen checio beth ydy'r diweddara.
   b) Uwchgwyrfai – ymateb gan Elwyn Vaughan. Nodir fod raid i'r gwaith gael ei gwblhau cyn ddiwedd Mawrth.
   c) Llythyr o gwyn gan Craig ab Iago ynglyn a hen safle'r neuadd yn Rhosgadfan.
   d) Parcio ger 3&4 Bro Wyled – clerc i ymholi ymhellach yn dilyn cwynion fod y cyngor cymuned wedi gwrthod yr argymhellion a dderbyniwyd y mis diwethaf.
   e) GLW – ffosydd heibio Isfryn yn llawn o gerrig o'r waliau yn dilyn gwaith torri gwrychoedd
   f) Un Llais Cymru – seminar hyfforddiant cynllunio + cyfarfod Arfon/Dwyfor
   g) Llythyr o gwyn gan Craig ab Iago ynglyn a chyflwr safle'r neuadd yn Rhosagdfan. Clerc i esbonio fod y Cyngor Cymuned eisoes wedi bod yn gwneud ymholiadau ynglyn â'r safle, ac wedi cael ar ddeall fod y safle ar fîn cael ei werthu a'i ddatblygu. Clerc i gysylltu eto efo'r pwyllgor i weld beth ydy'r diweddara.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	21,409.08
Cyfri Siec:	840.78
CYFANSWM	
Cyflog/costau clerc – mis Rhagfyr	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Cyngor Gwynedd – bil am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio)	8918.89
Zurich - Yswiriant Blynyddol	1052.04

Praesept ar gyfer 2008/09
Penderfynwyd cadw'r praesept fel y llynedd, sef £14,700.

Cais am nawdd: (ar gyfer mis Mawrth)
Cyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd

Materion Cynllunio
Materion o'r mis diwethaf:
CO7A/0696/24/YA – Tyddyn Bychan, Dinas – ymateb gan yr Adran Gynllunio yn nodi mai at ddefnydd amaethyddol yn unig y mae'r uned newydd.
CO7A/0783/24/YA – Ty Newydd, Rhos Isaf – ymateb gan yr Adran Gynllunio yn nodi nad oedd y cynllun gwreiddiol yn dderbyniol gan yr Adran ac eu bod wedi gofyn am gynllun diwygiedig.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol
CO7A/0819/24/LL neu CO7A/0818/24/CR – Tyddyn Difyr, Rhosgadfan - adnewyddu'r ty presennol ac adeiladu storfa
CO7A/0862/24/LL – Bryn Peris, Rhos Isaf – newidiadau i'r cais blaenorol.
Co8A/0019/24/LL – Ceunant, Rhostryfan - esynitad un llawr i lolfa wydr bresennol.
Eisoes wedi'u caniatau:
CO7A/0746/24/LL– Clwb Mountain Rangers, Rhosgadfan – gosod container i wneud ystafelloedd newid
CO7A/0791/24/LL – Glanrhyd Isaf, Llanwnda – creu mynedfa gerbydol
CO7A/0671/24/LL – Waen Bant, Rhostryfan - estyniad
Gohebiaeth:

a) Panel Dyfarnu Cymru – adroddiad blynyddol
b) Mynwent Hermon – llythyr gan y cyn-ysgrifennydd
c) Un Llais Cymru – pwyllgor ardal Arfon/Dwyfor – 17.01.08/ Seminar hyfforddiant cynllunio
d) Gorchymyn cau ffordd – Rhosgadfan/Rhostryfan
e) Agenda a Chofnodion cyfarfod clercod Gwynedd
f) Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) EmJ – angen gwella llwybrau oddi fewn i Cefnfaes

b) EE – dwr ar y ffordd Llanfaglan – Llandwrog. Hefyd problem ger y junction yn Saron – oes posib gosod kerbs. Ty'n Rhos – bws Express Motors wedi malu'r arwydd chevron.

c) Cwynion nad ydy pobl yn gallu ffendio'r safle wê.

d) GVT – camfa ger Wernlas Ddu.

e) MW – steps Muriau.

f) ElJ – parcio ger Bro Wyled. Hefyd yn nodi fod sbwriel yn broblem fawr – angen checio efo Steffan.

g) TE – caeau gyferbyn a Geufron. Nodwyd fod dau berchennog i'r cau bellach ac felly mae angen giat/camfa yn y ffens.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45p.m.